# Pennod 5

# Cyflawni trwy bartneriaeth

# Pennod pump – Cyflawni trwy bartneriaeth

1. Er mwyn medru cwrdd â'r addewid o newid cyfeiriad yn y cynhorthwy a gynigir gennym, mae angen mecanweithiau cyflawni newydd. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn parhau i fod wrth galon ein hymdrechion i wireddu cyflogaeth lawn, ond nid yw mynd i'r afael â'r problemau hyn yn rhywbeth y gall Canolfan Byd Gwaith wneud ar ei ben ei hunan. Bydd cyflawniad llwyddiannus angen partneriaeth agos gyda chyflogwyr, gyda darparwyr gwasanaeth cyflogi yn y sector preifat a'r trydydd sector, a chyda rhannau eraill o'r llywodraeth. Mae angen iddynt weithio gyda'i gilydd. Mae ei lwyddiant hefyd angen y partneriaid hyn i fod yn ymatebol, nid yn unig i amgylchiadau sy'n newid , ond i anghenion lleol yn ogystal.

## Rôl ganolog Canolfan Byd Gwaith

2. Canolfan Byd Gwaith yw'r prif fynedfa i'r system o symud o fudd-dâl i waith ac mae'n darparu budd-daliadau wedi'u teilwra a'u personoli a chynhorthwy nôl-i'r-gwaith. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i'r ffordd drwy'r system lles, gan ddarparu cyngor ac arwyddbyst ynghylch budd-daliadau, credydau treth, gofal plant, tai a iechyd. Byddwn yn rhoi cynghorwyr Canolfan Byd Gwaith yn y lleoedd priodol er mwyn iddynt weithredu fel eiriolwyr ar gyfer pob unigolyn yn y dasg o gaffael help ar draws holl ystod eu hanghenion. Byddant yn gweithio gydag asiantaethau eraill trwy gasglu atebion at ei gilydd sy'n gweddu i'r unigolyn a rhoi'r cyfle gorau iddynt gaffael swydd.

3. Fel rhan o ymateb y Llywodraeth i arolwg Leitch, bydd Canolfan Byd Gwaith hefyd yn chwarae rôl fwy yn y gwaith o ddarparu mynedfa i sgiliau, addysg a hyfforddiant. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn clustnodi cwsmeriaid y mae eu diffyg sgiliau yn rhwystr iddynt rhag cael gwaith, deall anghenion sgiliau'r farchnad lafur leol a chydweithio â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd Oedolion er mwyn helpu pobl â sgiliau isel sy'n derbyn budd-daliadau ddatblygu'r sgiliau sydd arnynt eu hangen er mwyn darganfod, cadw a gwneud cynnydd mewn gwaith.

4. Ymhellach ymlaen, ein huchelgais yw i Canolfan Byd Gwaith chwarae rôl allweddol yn y dasg o wireddu gweledigaeth Syr David Varney[8] o wasanaeth llywodraethol wedi'i gydgysylltu i'w ddinasyddion sy'n cynnig mynediad i ystod ehangach o wasanaethau neu drwy weithredu fel brocer i ddod o hyd i'r atebion cywir.

---

[8] Service Transformation: a Better Service for Citizens and Businesses, a Better Deal for Taxpayers, Tachwedd 2006.

5. Yn gryno, bydd Canolfan Byd Gwaith yn dal i fod yn gyfrifol am brofiad y cwsmer gydol oes cais am fudd-dâl, gan ddilyn trywydd cwsmeriaid er mwyn gwybod lle maent yn y system unrhyw bryd, a helpu cwsmeriaid ddod o hyd i ffordd drwy'r system er mwyn iddynt ddod o hyd i'r ystod llawn o gymorth maent ei angen o ba ffynhonnell bynnag. Bydd Canolfan Byd Gwaith yn gosod allan hawliau a chyfrifoldebau'r cwsmer unigol yn glir a sicrhau fod y ddau'n cael eu cyflawni. Yn gyfnewid am hyn bydd Canolfan Byd Gwaith hefyd yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu budd-daliadau yn gywir ac yn brydlon, a byddant yn mynd i'r afael â thwyll a gosod sancsiynau lle y bo'n angenrheidiol.

6. Ar ben hyn, oherwydd bod cyflogwyr yn ogystal ag unigolion yn gwsmeriaid, bydd Canolfan Byd Gwaith yn dal i gymryd a llenwi swyddi gweigion yn gyflym ac yn effeithlon. Ac, er mwyn darparu gwasanaeth gwell, bydd Canolfan Byd Gwaith yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol er mwyn deall eu hanghenion llafur a'r sgiliau maent eu hangen. Bydd hyn yn sicrhau y darparir gwasanaeth gwell, wedi'i arwain yn fwy gan y galw. Bydd hefyd yn galluogi i bobl sydd dan fwy o anfantais ddod o hyd i waith ac adeiladu ar eu sgiliau.

## Darparu cynhorthwy arbenigol ar gyfer y rhai sydd fwyaf anodd i'w helpu

7. Gwyddom fod Canolfan Byd Gwaith yn gweithio, ond gwyddom, yn ogystal, nad all ddarparu popeth sy'n angenrheidiol ar ei ben ei hun. Mae llawer o'r rheiny sy'n ddi-waith am gyfnodau estynedig yn wynebu nifer o rwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith, megis sgiliau isel, iechyd meddwl neu gorfforol gwael, mynediad cyfyng i ofal plant, neu anawsterau wrth deithio i gyflogaeth addas. Mae llawer yn wynebu rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag gweithio fel bod eu cyfnod o hawlio budd-daliadau yn hwyhau – colli hyder, neu ddisgyn i ddyled – gan arwain at gylchdro o nychdod.

8. Oherwydd hyn, credwn, fel a argymhellir yn adroddiad David Freud, fod angen i wasanaethau Canolfan Byd Gwaith gael eu hategu ymhellach gan gynhorthwy mwy arbenigol ar ôl cyrraedd pwynt penodol yn hawliad budd-dâl unigolyn. Medrai'r cynhorthwy hwn gael ei ddarparu gan sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, breifat neu'r trydydd sector. Dylai fod wedi'i ffocysu ar sicrhau canlyniadau y gellir eu cynnal ar gyfer hawlwyr budd-daliadau hirdymor a'r unigolion hynny sydd â nifer fawr o rwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith, tra'n gosod y lefel isaf bosibl o gyfyngiadau ar y sefydliad sy'n darparu'r cynhorthwy. Bydd hyn yn caniatáu i agwedd wedi'i theilwra gael ei mabwysiadu a all ymateb i amgylchiadau unigolion, a dod â hwy yn ôl i fyd gwaith.

9. Bydd y pwynt pryd bydd y cwsmer angen y cynhorthwy mwy arbenigol hwn yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau'r person. Fel a amlinellir yn ein model ar gyfer Bargen Newydd hyblyg (Pennod 4), rhagwelwn bydd hyn yn digwydd, ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid Lwfans Chwilio am Waith, ar ôl 12 mis. Fodd bynnag, ar gyfer cwsmeriaid eraill, gall fod yn addas ymyrryd yn gynnar er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn effeithiol ag anfantais luosog a chwtogi ar ddiweithdra a segurdod hirdymor. Bydd hyn yn cynnwys cwsmeriaid Lwfans Chwilio am Waith sydd wedi bod yn ddi-waith sawl gwaith ac am gyfnodau hwy, yn ogystal â grwpiau eraill o gwsmeriaid megis y rheiny ag afiechyd neu anabledd a rhieni sengl.

10. Rydym eisoes yn cymryd camau i'r cyfeiriad hwn: bydd cwsmeriaid Lwfans Cyflogaeth a Chynhorthwy yn y dyfodol, drwy gyfrwng gweithrediad graddol 'Llwybrau at Waith', yn cael cynhorthwy o ddarpariaeth arbenigol ar ôl 13 wythnos yn hytrach na 12 mis.

11. Er mwyn sicrhau fod y cwsmeriaid sydd angen yr help mwyaf yn ei dderbyn, byddwn yn datblygu a phrofi system drwy gyfrwng y pa un bydd Canolfan Byd Gwaith yn clustnodi'r rheiny sydd dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur. Rhagwelwn system wedi'i seilio'n bennaf ar hanes derbyn budd-daliadau cwsmer, ond sydd hefyd yn rhychwantu grwpiau megis y rheiny â'r rhwystrau mwyaf difrifol sydd â mynediad gwirfoddol cynnar i'r Bargeinion Newydd ar hyn o bryd.

12. Yn y dyfodol, ein huchelgais yw i symud i ddull o ddadansoddi wedi'i seilio ar nodweddion sy'n gysylltiedig â derbyn budd-daliadau dros gyfnod hir sy'n clustnodi'r rheiny a fyddent yn elwa fwyaf o gaffael mynediad cynharach. Bydd hyn yn heriol, ond medrai ddarparu'r allwedd i ddatgloi'r gwerth gorau o adnoddau drwy dargedu ymdrechion a gwybodaeth arbenigol mewn modd addas ar gwsmeriaid dan anfantais.

## Gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector preifat a'r trydydd sector

13. Credwn fod gan sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o ddarparu'r cynhorthwy mwy arbenigol hwn. Maent eisoes yn chwarae rôl werthfawr wrth ddarparu rhaglenni megis Parthau Cyflogaeth a'r Bargeinion Newydd ar gyfer pobl anabl a chwilwyr am swyddi. Eisoes cyfeirir oddeutu chwarter o wariant yr AGP at ddarpariaeth wedi'i chontractio.

14. Ers cychwyn rhaglen diwygio lles y Llywodraeth ym 1997 buom yn rhoi'r effaith ar brawf yn systematig o wneud dyluniad a darpariaeth cynhorthwy i'r farchnad lafur yn agored i gystadleuaeth.

15. Mae nifer o resymau pwysig dros ehangu rôl sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector yn y gwaith o symud o fudd-dâl i waith. Medrant ddod ag agwedd arbennig i ddarparu gwasanaeth wedi'i seilio ar eu gwybodaeth arbenigol, eu profiad a'u sgiliau. Maent yn ogystal yn cynnig rhychwant i fod yn fwy arloesol, gan ddatblygu dulliau newydd a chreadigol o weithio gyda chwsmeriaid.

16. Mae tystiolaeth o Barthau Cyflogaeth a'r Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl yn awgrymu y gall contractau wedi'u seilio ar ganlyniadau gyda'r sector preifat a'r trydydd sector ddwyn canlyniadau positif yn eu sgil ar gyfer y rheiny sy'n anodd i'w helpu. Fodd bynnag, yn achos Parthau Cyflogaeth, roedd y canlyniadau hyn yn ddrutach. Ar hyn o bryd rydym yn ymestyn yr agwedd hon ymhellach, drwy gwblhau cyflwyniad Llwybrau at Waith ledled y wlad, yn bennaf trwy gyfrwng y sectorau preifat a gwirfoddol i'r 60 y cant o'r wlad a fu hebddynt hyd yn hyn.

17. Yn gryno, gall ehangu rôl y sector preifat a'r trydydd sector yn y gwaith o ddarparu cynhorthwy cyflogaeth greu cyfleoedd newydd a chyfannu gwaith Canolfan Byd Gwaith trwy ei ganiatáu i dargedu ei adnoddau ei hun ar y pethau y mae'n eu gwneud orau.

## Egwyddorion contractio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector

18. Mae angen i'r agwedd a gymerir tuag at gontractio gyda'r sector preifat a'r trydydd sector adeiladu ar gryfderau pob sector. Mae angen iddo eu caniatáu i wneud y penderfyniadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni canlyniadau; sicrhau lefelau addas o gynhorthwy ar gyfer pob cwsmer; cynnal cystadleuaeth gref er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus mewn cost-effeithiolrwydd; a chaffael y gwerth gorau am yr arian ar gyfer y trethdalwr.

19. Mae'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'n hagwedd tuag at gontractio fel a ganlyn:

- **Darpariaeth o safon**: Mae angen i'r cynhorthwy bydd y llywodraeth yn ei roi yn ei le er mwyn helpu'r rheiny heb swyddi i baratoi ar gyfer, cael ac aros mewn gwaith, ychwanegu gwerth gwirioneddol. Rhaid iddo ddarparu'r help personol, wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn sydd arnynt ei angen er mwyn dod o hyd i waith a thrawsnewid eu bywydau. Rhaid i ddarpariaeth o safon sy'n ychwanegu gwerth fod ar gael ar gyfer yr unigolyn gan gynnwys cymorth tra arbenigol pan fod angen hynny, i ymdopi â rhwystrau anodd, wedi eu hen sefydlu neu luosog rhag cael a chadw gwaith.

- **Cystadleuaeth er mwyn gyrru gwerth**: Bu'r defnydd cynyddol a wnaed o gystadleuaeth er mwyn gyrru gwell gwerth a gwelliannau mewn gwasanaeth yn nodwedd bwysig o ddatblygiad rhaglenni cyflogaeth yn ystod y degawd diwethaf. Gan fod hon yn farchnad fawr sy'n tyfu, a fydd yn werth oddeutu biliwn o bunnau'r flwyddyn erbyn y flwyddyn nesaf, mae gan y Llywodraeth

y cyfle yn awr i ysgogi gwerth llawer iawn gwell drwy arfer ei grym prynu yn effeithiol. Bydd yn gwneud hyn drwy greu maes chwarae gwastad ar gyfer darparwyr o bob sector. Mae angen i'r Llywodraeth, yn ogystal, barhau i gynyddu ei hagwedd broffesiynol wedi hyn yn ei ddull o ymwneud â darparwyr presennol ac arfaethedig.

- **Contractau wedi'u seilio ar ganlyniadau gyda mwy o hyblygrwydd ar gyfer darparwyr**: Yn y gorffennol, nodweddwyd contractau rhaglenni cyflogaeth yn rhy aml gan fod yn rhai tymor byr (yn nodweddiadol mae contract yn para am ddwy neu dair blynedd yn unig), yn fach, ac wedi'u hanelu at broses a mewnbynnau. Nid ydynt wedi cynnig anogaethau priodol i ddarparwyr â pherfformiad rhagorol. Fel bod ein rhaglen diwygio lles wedi datblygu, bu inni gymryd camau sylweddol tuag at gontractau sydd wedi'u seilio gan mwyaf ar allbwn gyda lefel isel o gyfyngiadau, fel yn achos Parthau Cyflogaeth a Llwybrau at Waith. Golyga hyn y rhoir mwy o hyblygrwydd yn gynyddol i ddarparwyr o ran eu dull o ddarparu. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod mwy y medrwn ni ei wneud.

- **Safonau minimwm o gynhorthwy ar gyfer pawb**: Mae angen i'r hyblygrwydd hyn ar gyfer darparwyr yn eu dull o gynorthwyo pobl yn ôl i'r gwaith gael ei danategu gan amodoldeb sy'n addas ar gyfer yr unigolion hynny. Mae angen i ni hefyd warchod rhag darparwyr yn canolbwyntio ar y bobl hynny y gwyddant y medrant eu symud i mewn i waith yn hawdd, neu beidio â rhoi sylw haeddiannol i unrhyw unigolyn a fyddai, yn ei barn hwy, angen gormod o gynhorthwy.

20. Wedi ein tywys gan yr egwyddorion hyn, credwn fod gwerth gwirioneddol i'w gael drwy symleiddio ac ad-drefnu ein cyfres bresennol o gontractau dros amser a thrwy fabwysiadu agwedd mwy strategol tuag at gomisiynu rhaglenni cyflogaeth. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol a godwyd ac a drafodwyd o fewn, ac ers, cyhoeddiad adroddiad Freud, yn bennaf:

- Beth yw'r galluoedd sydd angen i ni eu gweld mewn cadwyn o ddarparwyr â pherfformiad rhagorol? Sut fedrwn ni ddefnyddio comisiynu er mwyn sicrhau a chyfnerthu ansawdd y galluoedd hyn? Beth yw rôl contractio cyntaf yn hynny?

- Sut fedrwn ni sicrhau'r cydbwysedd cywir o risg a gwobr er mwyn i ni annog buddsoddiad ac arloesedd, heb wneud sefyllfa chwaraewyr hanfodol, ond llai o faint, yn anghynaliadwy?

- Sut fedrwn ni annog y dulliau o ymddwyn sy'n gwneud y gwahaniaeth rhwng rôl contractwr cyntaf cynhyrchiol ac anghynhyrchiol?

- Beth yw'r lefel ddaearyddol addas ar gyfer contractwyr haen cyntaf neu brif gontractwyr – ac a yw'r ateb yn unffurf ledled y wlad?

- Sut fedrwn ni sicrhau fod ein gwaith contractio yn cefnogi integreiddiad â mentrau lleol ac ardal a chyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach sy'n chwarae rhan wrth helpu pobl yn ôl i'r gwaith?
- Sut fedrwn ni sicrhau ein bod yn annog ac yn talu am ganlyniadau o swyddi cynaliadwy?
- Sut fedrwn ni sicrhau mai canlyniad ein strategaeth comisiynu fydd culhau'r bwlch rhwng unigolion, grwpiau ac ardaloedd a'r cyfartaledd?
- Beth fedrwn ni ymgorffori o fewn ein hagwedd tuag at gontractio er mwyn sicrhau fod y cwsmer yn un o gyfranogion mwy gweithredol y system?

21. Yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, bydd yr AGP yn gwneud ymarfer manwl er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn, gan ffocysu i ddechrau ar y model contractio ar gyfer y Fargen Newydd hyblyg ond hefyd yn gosod allan strategaeth tymor hwy ar gyfer contractio rhaglenni cyflogaeth. Rhoddir canlyniadau'r ymarfer hwn ar goedd yn yr hydref.

22. Rydym eisoes wedi dechrau ymgynghori â darparwyr a chyfranddalwyr eraill ynghylch yr agwedd iawn tuag at gontractio, a byddwn yn parhau i ymofyn am eu barn wrth i ni ddatblygu'r strategaeth. Byddwn yn tynnu ar ddadansoddiad o'r amrediad o fodelau gwahanol y rhoddasom ar brawf yn y DU, yn ogystal â thystiolaeth o dramor. Byddwn hefyd yn ystyried ymhellach sut bydd ein rhaglenni cyflogaeth cenedlaethol yn cyd-fynd â'r Strategaeth Dinasoedd yn yr ardaloedd Arloesi'r Ffordd, a sut medrai'r gydberthynas hon ddatblygu.

23. Ar ben hyn, byddwn yn ceisio rhoi egwyddorion a threfniadau eraill ar brawf drwy gyfrwng rhaglenni neu beilotiaid eraill. Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn arfaethu arbrofi ag agwedd lle mae darparwyr sy'n llwyddiannus yn y dasg o symud pobl i mewn i gyflogaeth gynaledig (canlyniad a fyddai'n helpu i gwtogi ar wariant ar fudd-daliadau'n ogystal) yn cael eu gwobrwyo â chyllid ychwanegol i'w fuddsoddi mewn rhagor o weithgarwch.

## Partneriaeth ar draws y llywodraeth

24. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws y llywodraeth hefyd yn allweddol o safbwynt darparu system lles wedi'i diwygio. Mae sector cyhoeddus y DU yn cynnwys dros 1,300 o sefydliadau gan gynnwys adrannau o'r Llywodraeth, Gweinyddiaethau Datganoledig, Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, asiantaethau, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau gofal cynradd, a'r heddlu.

25. I roi ystyriaeth i un enghraifft yn unig; mae Llwybrau at Waith, dros y pedair blynedd ddiwethaf, wedi helpu dros 32,000 o bobl sy'n hawlio budd-dâl analluogrwydd i gael gwaith. Mae'r rhaglen hon yn darparu cynhorthwy cyfannol wedi'i bersonoli, gyda rhaglenni rheoli cyflwr a arweinir gan ddarparwyr iechyd,

yn ogystal â chynhorthwy cyflogaeth a roir drwy'r Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl. Gall rôl darparwyr iechyd fod yn dra phwysig yn y gwaith o helpu rhai grwpiau – megis pobl gyda phroblemau cyffuriau neu alcohol – i gael gwaith, ac mae'r Adran Iechyd wedi bod yn ymwneud yn agos â llunio a darparu Llwybrau.

26. Mae gweithio mewn partneriaeth ar draws y llywodraeth yn bwysig hefyd o safbwynt gostwng y niferoedd sy'n derbyn budd-daliadau gan sicrhau drwy hyn nad yw cyfnodau byr o fod yn ddi-waith yn dyfod yn gyfnodau hir o ddibynnu ar fudd-daliadau. Bu AGP yn gweithio ar y cyd â'r Adran Iechyd er mwyn cwtogi ar y niferoedd o bobl sy'n colli gwaith oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd. Mae hyn yn cynnwys rhedeg rhaglenni peilot i wella canlyniadau cyflogaeth ar gyfer pobl ag anawsterau iechyd meddwl; ac amrediad o fentrau i newid amgyffrediad ac ymddygiad ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a chyflogwyr.

27. Ar hyn o bryd archwilir dulliau newydd o gydgysylltu ar draws y Llywodraeth o dan nawdd y 'Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau a Rennir', gydag AGP a Thollau a Chyllid Ei Mawrhydi (HMRC) yn arbennig yn edrych am ddulliau o gydweithio a fedrant roi gwell gwasanaeth i'r cwsmer a gwell gwerth am yr arian i'r trethdalwr.

28. Mae angen i gydgysylltu llorweddol (ar draws adrannau o'r llywodraeth ac asiantaethau) fynd law yn llaw â chysylltu fertigol, h.y. cydgysylltu rhwng cyrff sector cyhoeddus canolog a rhanbarthol neu leol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol a hefyd yn caniatáu i bolisi fod yn ymatebol i anghenion ac amgylchiadau lleol.

29. Awdurdodau lleol yw un o'r chwaraewyr allweddol yma. Mae'r Arolwg Datblygiad ac Adfywiad Economaidd Is-genedlaethol yn gosod allan rôl gryfach ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr er mwyn gwell rhagolygon economaidd. Bu i Bapur Gwyn Llywodraeth Leol hefyd bwysleisio rôl strategol awdurdodau lleol yn Lloegr a'u rôl arweiniol yn y gwaith o'i gwneud yn haws i gydweithio'n agosach ar draws partneriaid ar lefel leol.

30. Felly, bydd angen i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth gyda Canolfan Byd Gwaith a phartneriaid allweddol eraill o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol er mwyn cyd-drefnu Partneriaethau Strategol Lleol a chytuno ar y Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Leol newydd. Bydd y fframwaith hwn yn galluogi i bartneriaid bennu'r dangosyddion lleol mwyaf priodol a gosod targedau addas ar gyfer canlyniadau cyflogaeth lleol.

31. Bydd cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd yn rhoi fframwaith Cytundeb Ardal Lluosog yn ei le yn Lloegr, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydweithredu ar draws ffiniau ar flaenoriaethau a rennir. Medrai'r cytundebau newydd hyn gynnig fframwaith cryf ar gyfer trefniadau partneriaeth ar lefel leol.

32. Mae gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol hefyd yn helpu cydgysylltu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc. Yn arbennig, mae gan bartneriaethau lleol 14-19 rôl allweddol yn y dasg o ddarparu dewis a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn eu hardal, drwy gynllunio darpariaeth addysg a sgiliau ar gyfer y rheiny rhwng 14 a 19 mlwydd oed, er mwyn sicrhau fod hyn yn cwrdd ag anghenion sgiliau'r economi lleol a'r farchnad lafur.

33. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol yn ogystal fel darparwyr tai cymdeithasol, sydd â chysylltiad agos â diweithdra. Mae 55 y cant llawn o aelwydydd o oedran gwaith sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn ddi-waith. Un o ddarganfyddiadau arwyddocaol adroddiad John Hill[9] oedd y ffaith er bod cynhorthwy tai a chyflogaeth yn dueddol o weithredu mewn meysydd gwahanol, yn fynych gall problemau gydag un maes fod â'u gwreiddiau mewn maes arall. Medrai 'galluogwyr' tai (er enghraifft landlordiaid cymdeithasol) a gwasanaethau cyflogaeth ( er enghraifft Canolfan Byd Gwaith) fabwysiadu agwedd mwy cydgysylltiol tuag at roi cyngor cyflogaeth a thai. Bydd AGP yn gweithio'n agos gyda'r Cymunedau a Llywodraeth Leol er mwyn ymchwilio i'r ffordd orau o gyflawni hyn.

## Gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol

### Y Strategaeth Dinasoedd

34. Fel a osodwyd allan yn y Papur Gwyn Llywodraeth Leol, mae'r Llywodraeth yn credu y gellid manteisio'n sylweddol o harneisio'r ymrwymiad, yr egni, y syniadau a ffrydiau cyllido partneriaid sector cyhoeddus lleol a chyflogwyr er mwyn mynd i'r afael â diweithdra mewn cymunedau. Llunnir Strategaeth Dinasoedd y Llywodraeth er mwyn gwneud hyn drwy hybu cyfleoedd am gyflogaeth ar gyfer y rheiny sydd dan yr anfantais fwyaf mewn cymdeithas. Mae hyn yn cynnwys cwsmeriaid yr AGP yn ogystal â grwpiau â blaenoriaeth a fedrant fod yn derbyn budd-daliadau neu beidio, ond sydd â phroblemau ehangach o lawer, megis ffoaduriaid, cyn-droseddwyr, y rheiny sy'n gaeth i gyffuriau a'r digartref. Elfen allweddol o'r agwedd yw i gydgysylltu darpariaeth leol, yn arbennig darparu cyflogaeth a sgiliau, er mwyn creu'r nifer fwyaf posibl o gyfleoedd i bobl mewn ardaloedd dan anfantais.

35. O fewn Strategaeth Dinasoedd AGP, mae partneriaid lleol – gan gynnwys awdurdodau lleol, busnesau preifat, sefydliadau'r trydydd sector, Canolfan Byd Gwaith a'r cynghorau Dysgu a Sgiliau – wedi ffurfio consortia mewn 15 o ddinasoedd neu ardaloedd dinesig[10]. Mae'r consortia hyn yn rhoi ffrydiau cyllido ynghyd, yn ad-drefnu a chydgysylltu gwasanaethau, ac yn comisiynu gwasanaethau wedi'u teilwra er mwyn cwrdd ag anghenion lleol. Maent yn gweithio gyda Canolfan Byd Gwaith er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r hyblygrwydd sydd ar gael i gynghorwyr personol yn y gwaith o ddarparu cynhorthwy wedi'i deilwra i unigolion. Bydd y Strategaeth Dinasoedd yn profi p'un ai y gall atebion a bennir yn lleol ychwanegu gwerth sylweddol i godi a gwella canlyniadau cyflogaeth.

---

9 Ends and Means: the Future Role of Social Housing in England, John Hills, Chwefror 2007.

10 Birmingham, Blackburn, Dundee, Caeredin, Glasgow, Blaenau'r Cymoedd, Caerlŷr, Manceinion Fwy, Nottingham, Rhyl, De Swydd Efrog, Tyne a Wear, Gorllewin Llundain, Dwyrain Llundain a Lerpwl.

36. Mae hon yn agwedd arloesol at gyfer AGP ac yn un sy'n datblygu, gan symud o ddarpariaeth gwasanaeth llwyr gyffredinol, wedi'i dylunio a'i chontractio ar sail genedlaethol tuag at un lle caiff darpariaeth genedlaethol ei hategu gan ddarpariaeth a luniwyd yn lleol wedi'i ffocysu ar anghenion penodol ardaloedd lleol.

37. Dros y ddwy flynedd i Ebrill 2009, bydd y Strategaeth Dinasoedd yn ei cham cyflawni yn profi p'un ai:

- y gall cyfranddalwyr lleol, wedi'u cefnogi gan wybodaeth gadarn o'u marchnad lafur leol ac ar ôl derbyn rhywfaint o ryddid gan lywodraeth ganolog, lunio gwasanaethau arloesol sy'n fwy effeithiol o ran mynd i'r afael â chrynoadau lleol hirsefydlog o anfantais;

- yw atebolrwydd lleol yn effeithiol o ran codi a gwella perfformiad – yn arbennig lle mae atebolrwydd a darparu gwasanaeth wedi'u gosod ar yr un lefel gofodol. Agwedd bwysig o hyn yw datganoli'r gronfa ardaloedd difreintiedig i Gonsortia Dinasoedd; a ph'un ai yw

- agwedd o bartneriaeth, gan adeiladu ar ddiddordeb a rennir cyfranddalwyr lleol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau o safon a gwneud gwahaniaeth i unigolion dan anfantais, yn ddigon cryf i gael effaith gwirioneddol.

38. Yn dilyn cwblhau cynllun busnes a tharged, mae'r Consortia Dinasoedd yn symud ymlaen i'r cam darparu a disgwylir iddynt gyflawni tri y cant o ostyngiad yn ychwanegol yn y nifer sy'n derbyn budd-daliadau gyda chodiad cyfatebol yn y gyfradd gyflogaeth. O ganlyniad, yr uchelgais yw i symud 30,000 ychwanegol i ffwrdd o fudd-daliadau ar draws pob rhaglen arloesi'r ffordd. Bydd AGP yn trefnu bod cronfa wobr o bum miliwn punt o leiaf ar gael er mwyn cydnabod agweddau arloesol tuag at gynyddu canlyniadau cyflogaeth ar gyfer y rheiny sydd o dan yr anfantais fwyaf.

39. Bydd AGP yn darparu cynhorthwy i'r Consortia Dinasoedd wrth iddynt symud i mewn i'w cam cyflawni. Dros y ddwy flynedd nesaf caiff 65 miliwn punt o Gronfa Ardaloedd Difreintiedig AGP ei ddatganoli i'r Consortia Dinasoedd er mwyn cefnogi gweithrediad eu strategaeth leol.

40. Bydd AGP yn darparu cynhorthwy pellach drwy sefydlu rhwydwaith dysgu. Bydd hyn yn caniatáu arloeswyr ffordd i ddod at ei gilydd a rhannu arfer gorau. Bydd hefyd yn helpu i hyrwyddo'r agweddau arloesol rydym yn edrych amdanynt. Bydd agweddau arloesol a bennwyd yn lleol yn allweddol i lwyddiant y Strategaeth Dinasoedd a chwrdd â'r targedau heriol y mae'r arloeswyr ffordd yn gweithio tuag atynt. Wrth i ni symud ymlaen yn y gwaith o ddatblygu ein strategaeth contractio, bydd angen i ni sicrhau fod yr arloesedd hwn a gwybodaeth arbenigol y Consortia Dinasoedd yn cael ei ddefnyddio'n llawn ac mewn modd priodol.

## Integreiddio cyflogaeth a sgiliau'n lleol

41. Argymhellodd arolwg sgiliau Leitch rwydwaith o fyrddau cyflogaeth a sgiliau lleol er mwyn dylanwadu ar sut y darparir cyflogaeth a sgiliau ar lefel leol. Medrai'r byrddau cyflogaeth a sgiliau hyn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau fod y system leol yn ymatebol i anghenion cyflogwyr lleol a rhoi cynhorthwy i bobl dan anfantais ac â sgiliau isel i gael gwaith a symud ymlaen i swyddi gwell. Mae agwedd y Llywodraeth tuag at fyrddau cyflogaeth a sgiliau yn cael ei osod allan yn '*World Class Skills*', a gaiff ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r ddogfen ymgynghori hon. Mae integreiddiad lleol yn nodwedd allweddol yn ogystal o nifer o gynigion eraill yn y ddogfen ymgynghori hon, megis y Partneriaethau Cyflogaeth Lleol a fyddant yn cyfannu cynigion Leitch.

42. Yn ogystal ag integreiddio darpariaeth cyflogaeth a sgiliau yn lleol yn Lloegr, mae angen i ni hefyd wneud yr un peth gyda'r gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig. Rydym eisoes yn cydweithio agos â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ac ar hyn o bryd rydym yn cynnal trafodaethau â hwy ynghylch sut medrem sicrhau fod system gyflogaeth a sgiliau integredig yn ei lle ym mhob man.